

# ATODIAD A

## CYNGOR TREF Y RHYL RHEOLIADAU ARIANNOL

### MYNEGAI

1.	CYFFREDINOL .....	2
2.	CYFRIFYDDU AC ARCHWILIO (MEWNOL AC ALLANOL) .....	4
3.	AMCANESTYNIADAU BLYNYDDOL (CYLLIDEB) A CHYNLLUNIO AT Y DYFODOL .....	6
4.	RHEOLAETH GYLLIDEBOL AC AWDURDOD I WARIO .....	6
5.	TREFNIADAU BANCIO AC AWDURDODI TALIADAU .....	8
6.	CYFARWYDDIADAU AR GYFER GWNEUD TALIADAU .....	9
7.	TALU CYFLOGAU .....	11
8.	BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU .....	12
9.	INCWM .....	13
10.	GORCHMYNION AR GYFER GWAITH, NWWYDDAU A GWASANAETHAU .....	14
11.	CONTRACTAU .....	14
12.	TALIADAU DAN GONTRACTAU AR GYFER ADEILADU A GWAITH ADEILADU ARALL .....	16
13.	STORAU A CHYFARPAR .....	16
14.	ASEDAU, ADEILADAU A STADAU .....	17
15.	YSWIRIANT .....	18
16.	RHEOLI RISG .....	18
17.	ATAL AC ADOLYGU RHEOLIADAU ARIANNOL .....	18

## 1. CYFFREDINOL

- 1.1. Mae'r rheoliadau ariannol hyn yn llywodraethu sut mae'r cyngor yn ymgymryd â rheolaeth ariannol, a gellir ond eu diwygio neu eu hamrywio gan benderfyniad y cyngor. Mae'r rheoliadau ariannol yn un o dair dogfen polisi llywodraethu'r cyngor sy'n rhoi arweiniad i aelodau a swyddogion. Rhaid ystyried y rheoliadau ariannol ar y cyd â rheolau sefydlog y cyngor<sup>1</sup> ac unrhyw reoliadau ariannol unigol sy'n ymwneud â chontractau.
- 1.2. Y cyngor sy'n gyfrifol dan y gyfraith am sicrhau bod ei reolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol a bod gan y cyngor system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso ymarfer swyddogaethau'r cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- 1.3. Rhaid i systemau rheoli cyfrifyddu'r cyngor gynnwys mesurau:
  - i gynhyrchu cyfrifon yn amserol;
  - sy'n darparu ar gyfer gwarchod arian cyhoeddus yn ddiogel ac effeithiol;
  - i rwystro a chanfod camgymeriadau a thwyll, ac
  - adnabod dyletswyddau swyddogion.
- 1.4. Mae'r rheoliadau ariannol hyn yn dangos sut mae'r cyngor yn cyflawni'r cyfrifoldebau a'r gofynion hyn.
- 1.5. O leiaf unwaith y flwyddyn, cyn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol, bydd y cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol, a fydd yn unol â'r arferion priodol.
- 1.6. Gall torri'r Rheoliadau hyn yn fwriadol neu o wirfodd gan weithiwr arwain at gamau disgyblu.
- 1.7. Disgwylir i aelodau'r Cyngor ddilyn y cyfarwyddiadau yn y Rheoliadau hyn a pheidio ag annog gweithwyr i'w torri. Mae methu â dilyn cyfarwyddiadau yn y Rheoliadau hyn yn dwyn anfri ar swydd cynghorydd.
- 1.8. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn dal swydd statudol, i'w phenodi gan y cyngor. Penodwyd y Clerc fel SAC ar gyfer y cyngor hwn a bydd y rheoliadau hyn yn berthnasol yn unol â hynny.

---

<sup>1</sup> Mae rheolau sefydlog enghreifftiol ar gyfer cynghorau ar gael yn Local Councils Explained © 2013 Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol

1.9. Mae'r SAC:

- yn gweithredu dan gyfeiriad polisi'r cyngor;
- yn gweinyddu materion ariannol y cyngor yn unol â phob Deddf, Rheoliadau ac arferion priodol;
- yn penderfynu ar ran y cyngor ei gofnodion cyfrifyddu a systemau rheoli cyfrifyddu;
- yn sicrhau bod systemau rheoli cyfrifyddu yn cael eu dilyn;
- yn cadw cofnodion cyfrifyddu'r cyngor a'u diweddarau yn unol ag arferion priodol;
- yn cynorthwyo'r cyngor i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, ac
- yn cynhyrchu gwybodaeth reolaeth ariannol fel sy'n ofynnol gan y cyngor.

1.10. Bydd y cofnodion cyfrifyddu a benderfynir gan y SAC yn ddigonol i ddangos ac esbonio trafodaethau ariannol y cyngor ac i alluogi i'r SAC sicrhau bod unrhyw gyfrifo incwm a gwariant a datganiad o fantolenni, neu gofnod o dderbynebaw a thaliadau a gwybodaeth ychwanegol, fel y bo'r achos, neu wybodaeth reoli a baratoir ar gyfer y cyngor o bryd i'w gilydd, yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

1.11. Bydd y cofnodion cyfrifyddu a benderfynir gan y SAC yn cynnwys yn benodol:

- cofnodion o holl symiau arian a dderbynnir ac a werir o ddydd i ddydd gan y cyngor a'r materion y mae'r incwm a'r gwariant neu dderbynebaw a thaliadau yn ymwneud â nhw;
- cofnod o asedau a chyfrifoldebau'r cyngor, a
- lle bynnag y bo'n berthnasol, cofnod o incwm a gwariant y cyngor mewn perthynas â hawliadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, am unrhyw gyfraniad, grant neu gymhorthdal.

1.12. Bydd y systemau rheoli cyfrifyddu a benderfynir gan y SAC yn cynnwys:

- trefniadau i sicrhau bod trafodaethau ariannol y cyngor yn cael eu cofnodi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac mor gywir a rhesymol ag y bo modd;
- trefniadau i alluogi rhwystro a chanfod camgymeriadau a thwyll a'r gallu i ailadeiladu unrhyw gofnodion a gollir;
- adnabod dyletswyddau swyddogion sy'n delio â thrafodaethau ariannol a rhannu cyfrifoldebau'r swyddogion hynny mewn perthynas â thrafodaethau ariannol arwyddocaol;

- trefniadau i sicrhau nad yw symiau na ellir eu casglu, gan gynnwys dyledion drwg, yn cael eu cyflwyno i'r cyngor i gael cymeradwyaeth i'w diddymu heb gymeradwyaeth y SAC a bod y gymeradwyaeth yn cael ei dangos yn y cofnodion cyfrifyddu, a
  - mesurau i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n briodol.
- 1.13. Nid yw'r cyngor yn cael ei rymuso gan y Rheoliadau hyn na fel arall i ddirprwyo penderfyniadau penodol. Yn arbennig, bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â:
- phennu'r gyllideb derfynol neu'r praesept (gofyniad y dreth gyngor);
  - cymeradwyo datganiadau cyfrifyddu;
  - cymeradwyo datganiad llywodraethu blynyddol;
  - benthyca;
  - diddymu dyledion drwg;
  - datgan cymhwyster ar gyfer Pŵer Cyffredinol Cymhwyster, a
  - delio ag argymhellion mewn unrhyw adroddiad gan yr archwilwyr mewnol neu allanol,
- yn fater i'r cyngor llawn yn unig.
- 1.14. At hyn, rhaid i'r cyngor:
- benderfynu ar ac adolygu'n rheolaidd y mandad banc ar gyfer holl gyfrifon banc y cyngor;
  - cymeradwyo unrhyw grant neu ymrwymiad sengl dros £5,000, a
  - mewn perthynas â chyflog blynyddol unrhyw weithiwr, ystyried argymhellion am gyflogau blynyddol gweithwyr a wnaed gan y pwyllgor perthnasol yn unol â'i gylch gorchwyl.
- 1.15. Yn y rheoliadau ariannol hyn, bydd cyfeiriad at y Cyfrifon a Rheoliadau Archwilio neu'r 'rheoliadau' yn golygu'r rheoliadau a gyhoeddwyd dan ddarpariaethau adran 27 Deddf Comisiwn Archwilio 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cymryd ei lle, ac mewn grym bryd hynny oni bennir fel arall.
- 1.16. Yn y rheoliadau ariannol hyn, bydd y term 'arfer briodol' neu 'arferion priodol' yn cyfeirio at gyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn unol â *Governance and Accountability for Local Councils - a Practitioners' Guide 2011 (Wales) Diwygiwyd Rhagfyr 2014*

## **2. CYFRIFYDDU AC ARCHWILIO (MEWNOL AC ALLANOL)**

- 2.1. Bydd holl drefniadau cyfrifyddu a chofnodion ariannol y cyngor yn cael eu penderfynu gan y SAC yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, canllawiau priodol ac arferion priodol.
- 2.2. Yn rheolaidd, o leiaf unwaith ym mhob chwarter, ac ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, caiff y maer neu berson arall a benodir gan y cyngor, ei benodi i ddilysu cysoniadau banc a gynhychir gan y SAC. Bydd yr aelod yn llofnodi'r cysoniadau a'r datganiadau banc gwreiddiol fel tystiolaeth ei fod wedi dilysu. Bydd y gweithgaredd hwn o'i gwblhau yn cael ei adrodd, gan gynnwys unrhyw eithriadau, i a'i gydnabod gan Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y cyngor.
- 2.3. Bydd y SAC yn cwblhau datganiad cyfrifon blynyddol, adroddiad blynyddol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig y cyngor a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol (fel y pennir yn yr arferion priodol) cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ac ar ôl tystysgrifo'r cyfrifon bydd yn eu cyflwyno ac adrodd arnynt i'r cyngor o fewn yr amserlen a bennwyd gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
- 2.4. Bydd y cyngor yn sicrhau bod system ddigonol ac effeithiol o archwilo mewnol ar gyfer ei gofnodion cyfrifyddu, a'i system o reolaeth fewnol yn unol ag arferion priodol. Bydd unrhyw swyddog neu aelod o'r cyngor yn sicrhau bod dogfennau a chofnodion o'r fath ar gael i'r cyngor sy'n angenrheidiol i ddibenion yr archwiliad a bydd, yn ôl cyfarwyddyd y cyngor, yn rhoi i'r SAC, archwiliwr mewnol neu archwiliwr allanol unrhyw wybodaeth ac esboniad y tybia'r cyngor sy'n angenrheidiol i'r pwrpas hwnnw.
- 2.5. Bydd Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y cyngor yn gyfrifol am ddatblygu a monitro Cynllun Archwilio blynyddol ac yn gwneud argymhellion i'r cyngor.
- 2.6. Bydd gofyn i Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y cyngor baratoi ac argymhell i'r cyngor y Datganiad o Sicrhad a rhan o'r Adroddiad Blynyddol fel sy'n ofynnol gan yr Archwiliwr Allanol.
- 2.7. Penodir archwiliwr mewnol a bydd yn gwneud y gwaith mewn perthynas â rheolaeth fewnol sy'n ofynnol gan y cyngor yn unol ag arferion priodol.
- 2.8. Bydd yr archwiliwr mewnol yn:
  - gymwys ac yn annibynnol o weithrediadau ariannol y cyngor;
  - adrodd i'r cyngor yn ysgrifenedig, neu yn bersonol, yn rheolaidd gydag o leiaf un adroddiad ysgrifenedig blynyddol yn ystod pob blwyddyn ariannol;
  - arddangos cymwysedd, gwrthrychedd ac annibyniaeth, bod yn rhydd rhag unrhyw wrthdrawiadau buddiannau gwirioneddol neu ymddangosiadol, gan gynnwys rhai sy'n deillio o berthynas deuluol;
  - chwarae dim rhan mewn cymryd penderfyniadau ariannol, rheolaeth neu lywodraethu'r cyngor;
  - ymgymryd â'r gwaith a nodwyd yng Nghynllun Archwilio'r cyngor.
- 2.9. Ni chaiff archwiliwr mewnol nac allanol dan unrhyw amgylchiadau:

- ymgymryd â dyletswyddau gweithredol y cyngor;
  - ysgogi neu gymeradwyo trafodaethau cyfrifyddu, neu
  - gyfeirio gweithgareddau unrhyw weithiwr cyngor, ac eithrio i'r perwyl bod gweithwyr o'r fath wedi eu pennu i gynorthwyo'r archwiliwr mewnol.
- 2.10. Er mwyn osgoi amheuaeth, mewn perthynas ag archwilio mewnol, bydd gan y termau 'annibynnol' ac 'annibyniaeth' yr un ystyr ag a ddisgrifir mewn arferion priodol.
- 2.11. Bydd y SAC yn gwneud trefniadau i ymarfer hawliau etholwyr mewn perthynas â'r cyfrifon, gan gynnwys y cyfle i archwilio'r cyfrifon, llyfrau a thalebau ac arddangos neu gyhoeddi unrhyw hysbysiadau a datganiadau cyfrifon fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998, neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cymryd ei lle, a'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
- 2.12. Bydd y SAC, heb oedi di-alw-amdano, yn dwyn i sylw'r holl gynghorwyr unrhyw ohebiaeth neu adroddiad gan archwilwyr mewol neu allanol.

### **3. AMCANGYFRIFON BLYNYDDOL (CYLLIDEB) A CHYNLLUNIO AT Y DYFODOL**

- 3.1. Bob blwyddyn rhaid i'r SAC, erbyn dim hwyrach na mis Rhagfyr, baratoi amcangyfrifon manwl o'r holl dderbynebaw a thaliadau gan gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn a holl ffynonellau ariannu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar ffurf cyllideb i'w hystyried gan y cyngor ddim hwyrach na diwedd mis Ionawr.
- 3.2. Bydd y cyngor yn pennu'r praesept (gofyniad y dreth gyngor) a swm sylfaenol perthnasol o'r dreth gyngor i'w chodi ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf erbyn dim hwyrach na diwedd mis Ionawr bob blwyddyn. Bydd y SAC yn cyflwyno'r praesept i'r awdurdod bilio ac yn rhoi copi i bob aelod o'r gyllideb flynyddol a gymeradwywyd.
- 3.3. Bydd y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd yn ffurfio sylfaen rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

### **4. RHEOLAETH GYLLIDEBOL AC AWDURDOD I WARIO**

- 4.1. Gellir awdurdodi gwariant ar eitemau refeniw hyd at y symiau a gynhwyswyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb gymeradwy. Mae'r awdurdod hwn i'w benderfynu gan:
- y cyngor ar gyfer holl eitemau dros £5,000;
  - pwyllgor o'r cyngor wedi ei ddirprwyo'n briodol ar gyfer eitemau dros £1,000, neu

- y Clerc, ar y cyd â Chadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd y pwyllgor priodol, ar gyfer unrhyw eitemau dan £1,000.

Rhaid cofnodi unrhyw awdurdod o'r fath neu gyda bonyn awdurdodi a lofnodwyd gan y Clerc, a lle bo angen, hefyd gan y Cadeirydd priodol.

Ni ellir gwahanu contractau i osgoi'r reolaeth a bennwyd gan y rheoliadau hyn.

- 4.2. Ni chaiff unrhyw wariant ei awdurdodi a fydd yn mynd dros y swm a ddarperir yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth gwariant hwnnw ac eithrio gan benderfyniad y cyngor, neu bwyllgor wedi ei ddirprwyo'n briodol. Yn ystod blwyddyn y gyllideb a chyda chymeradwyaeth y cyngor, ar ôl ystyried yn llawn y gobygiadau i wasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau heb eu gwario ac sydd ar gael, i benawdau cyllideb eraill neu gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi fel y bo'n briodol ('trosglwyddiad arian').
- 4.3. Ni chaiff darpariaethau heb eu gwario yn y cyllidebau refeniw neu gyfalaf ar gyfer prosiectau wedi eu cwblhau eu cario drosodd i flwyddyn olynol.
- 4.4. Mae'r cyllidebau cyflogau i'w hadolygu o leiaf yn flynyddol ym mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod, ac yn dystiolaeth o adolygiad o'r fath bydd atodlen copi caled wedi ei lofnodi gan y Clerc a Chadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd y pwyllgor perthnasol. Bydd y SAC yn hysbysu pwyllgorau o unrhyw newidiadau sy'n effeithio eu gofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn da bryd.
- 4.5. Mewn achosion lle mae risg eithafol i wasanaethau'r cyngor, gall y cleric awdurdodi gwariant refeniw ar ran y cyngor y mae angen ei wneud ym marn y cleric. Mae gwariant o'r fath yn cynnwys trwsio, adnewyddu neu waith arall, boed darpariaeth gyllidebol ar gyfer y gwariant ai peidio, yn amodol ar gyfyngiad o £1,000. Bydd y cleric yn adrodd am ddigwyddiad o'r fath i'r cadeirydd cyn gynted ag y bo modd ac i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.
- 4.6. Ni fydd unrhyw wariant yn cael ei awdurdodi ar gyfer unrhyw brosiect cyfalaf ac ni wneir unrhyw gontract na derbyn unrhyw dendr yn ymwneud â gwariant cyfalaf oni fo'r cyngor yn fodlon bod y cronfeydd angenrheidiol ar gael a bod y gymeradwyaeth ofynnol i fenthyca wedi ei sicrhau.
- 4.7. Bydd holl waith cyfalaf yn cael ei wneud yn unol â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y cyngor mewn perthynas â chontractau.
- 4.8. Bydd y SAC yn rhoi i'r cyngor yn rheolaidd ddatganiad o dderbynebau a thaliadau hyd yma dan bob pennawd yn y cyllidebau, yn cymharu gwir wariant gyda'r dyddiad priodol yn erbyn yr hwn y'i cynlluniwyd fel y dangosir yn y gyllideb. Mae'r datganiadau hyn i'w paratoi o leiaf ar ddiwedd pob chwarter ariannol a bydd yn dangos esboniadau o amrywiadau perthnasol. I'r pwrpas hwn, bydd "perthnasol" yn golygu dros £1,000 neu 10% o'r gyllideb.
- 4.9. Bydd newidiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu cymeradwyo gan y cyngor fel rhan o'r broses o reoli'r gyllideb.

## 5. TREFNIADAU BANCIO AC AWDURDODI TALIADAU

- 5.1. Bydd trefniadau bancio'r cyngor, gan gynnwys y mandad banc, yn cael eu gwneud gan y SAC a'u cymeradwyo gan y cyngor; ni ellir dirprwyo trefniadau banc i bwyllgor. Byddant yn cael eu harolygu'n rheolaidd o ran diogelwch ac effeithlonrwydd.
- 5.2. Bydd y SAC yn paratoi atodlen o daliadau sydd angen eu hawdurdodi, gan ffurfio rhan o'r Rhaglen ar gyfer y Cyfarfod ac, ynghyd â'r anfonebau perthnasol, yn cyflwyno'r atodlen i'r cyngor neu'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Bydd y cyngor/pwyllgor yn arolygu'r atodlen i sicrhau ei bod yn cydymffurfio ac ar ôl bodloni ei hun bydd yn awdurdodi taliadau dan benderfyniad y cyngor/pwyllgor. Caiff yr atodlen gymeradwy ei chadarnhau a'i llofnodi gan Gadeirydd y Cyfarfod. Bydd rhestr fanwl o'r holl daliadau yn cael ei datgelu yn neu fel atodiad i gofnodion y cyfarfod yn yr hwn yr awdurdodwyd y taliadau. Gellir crynhoi taliadau personol (gan gynnwys cyflogau, treuliau a thaliadau a wneir mewn perthynas â therfynu contract) fel nad yw'r cyhoedd yn gweld gwybodaeth bersonol.
- 5.3. Bydd holl anfonebau ar gyfer taliadau yn cael eu harchwilio, eu dilysu a'u tystio gan y SAC i gadarnhau bod y gwaith, nwyddau neu wasanaethau y mae pob anfoneb yn ymwneud â nhw wedi eu derbyn, wedi eu gwneud, eu harchwilio ac yn cynrychioli taliad a gymeradwywyd yn flaenorol gan y cyngor.
- 5.4. Bydd y SAC yn archwilio anfonebau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn eu dadansoddi i'r pennawd gwariant priodol. Bydd y SAC yn cymryd pob cam i dalu'r holl anfonebau a gyflwynir ac sydd mewn trefn, yng nghyfarfod nesaf y cyngor neu'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.
- 5.5. Bydd gan y Clerc awdurdod dirprwyedig i awdurdodi talu eitemau dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:
  - a) Os oes angen talu i osgoi tâl llog dan y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llogau) 1998, ac mae'r dyddiad talu cyn cyfarfod nesaf a drefnwyd y cyngor, lle mae'r Clerc a'r SAC yn tystio nad oes unrhyw anghydfod neu reswm arall i ohirio talu, cyn belled â bod rhestr o daliadau o'r fath yn cael ei chyflwyno i gyfarfod priodol nesaf y cyngor;
  - b) Eitem o wariant a awdurdodwyd dan 5.6 isod (contractau ac ymrwymadau parhaus) cyn belled â bod rhestr o daliadau o'r fath yn cael ei chyflwyno i gyfarfod priodol nesaf y cyngor.



- 5.6. Ar gyfer pob blwyddyn ariannol bydd y Clerc a'r SAC yn llunio rhestr o daliadau dyledus sy'n codi'n rheolaidd o ganlyniad i gontract parhaus, dyletswydd statudol neu ymrwymiad, megis (ond heb ei gyfyngu i) Gyflogau, PAYE ac Yswiriant Gwladol, Cornfa Bensiwn a chontractau cynnal a chadw rheolaidd a'u tebyg lle gall y cyngor awdurdodi tâl am y flwyddyn cyn belled ag y glynir at ofynion rheoliad 4.1 (Rheolaeth Gyllidebol), cyn belled hefyd â bod rhestr o daliadau o'r fath yn cael ei chyflwyno i gyfarfod priodol nesaf y cyngor/Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.
- 5.7. Mewn perthynas â grantiau, bydd pwyllgor a awdurdodwyd yn briodol yn cymeradwyo gwariant o fewn unrhyw gyfyngiadau a bennwyd gan y cyngor ac yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi a gymeradwywyd gan y cyngor. Bydd unrhyw Grant Refeniw neu gyfalaf dros £5,000 yn cael ei chadarnhau gan benderfyniad y cyngor cyn gwneud tâl.
- 5.8. Mae'r aelodau yn destun Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor a byddant yn cydymffurfio â'r Côt a'r Rheolau Sefydlog pan gymerir penderfyniad i awdurdodi neu gyfarwyddo taliad mewn perthynas â mater lle mae ganddynt fuddiant ariannol neu fuddiant arall datgeladwy, oni fo gollyngiad wedi ei roddi.
- 5.9. Nod y cyngor fydd cylchredeg dyletswyddau'r aelodau dan y Rheoliadau hyn fel bod dyletswyddau beichus yn cael eu rhannu mor deg ag y bo modd dros amser.
- 5.10. Bydd unrhyw newidiadau yn y manylion a gofnodir am gyflenwyr, megis cofnodion cyfrifon banc, yn cael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan Aelod.

## **6. CYFARWYDDIADAU AR GYFER GWNEUD TALIADAU**

- 6.1. Bydd y cyngor yn gwneud trefniadau diogel ac effeithiol ar gyfer gwneud ei daliadau.
- 6.2. Ar ôl awdurdodiad dan Reoliad Ariannol 5 uchod, bydd y cyngor, Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol neu, os caiff ei ddirprwyo i wneud hynny, y Clerc neu'r SAC yn rhoi cyfarwyddyd y dylid gwneud taliad.
- 6.3. Bydd pob tâl yn cael ei wneud gyda siec neu gyfarwyddiadau eraill i fancwyr y cyngor, neu fel arall, yn unol â phenderfyniad y cyngor.
- 6.4. Bydd sieciau neu orchmynion talu o'r cyfrif banc yn unol â'r atodlen a gyflwynwyd i'r cyngor neu bwyllgor yn cael eu llofnodi gan ddau aelod o'r cyngor yn unol â phenderfyniad yn cyfarwyddo'r taliad hwnnw. Ni ddylai aelod sy'n llofnodwr banc, gyda chysylltiad trwy rinwedd perthynas deuluol neu fusnes gyda'r person sy'n derbyn y taliad, fod yn llofnodwr i'r taliad dan sylw dan amgylchiadau arferol.
- 6.5. I ddangos cytundeb ynglŷn â'r manylion a ddangosir ar y siec neu'r gorchymyn talu gyda'r bonyn a'r anfoneb neu ddogfen debyg, bydd y llofnodwyr hefyd yn rhoi llythrennau eu henwau ar fonyn y siec.

- 6.6. Fel rheol ni fydd sieciau neu orchmynion talu yn cael eu cyflwyno i'w llofnodi ac eithrio mewn cyfarfod o'r cyngor neu bwyllgor (gan gynnwys yn union cyn neu ar ôl cyfarfod o'r fath). Bydd llofnod a geir i ffwrdd o gyfarfodydd o'r fath yn cael ei adrodd i'r cyngor yn y cyfarfod hwylus nesaf.
- 6.7. Os tybir ei bod yn briodol gan y cyngor, gellir talu cyflenwyr cyfleustodau (ynni, ffôn a dŵr) ac unrhyw Drethi An-nomestig Cenedlaethol gyda debyd uniongyrchol amrywiol cyn belled â bod y cyfarwyddiadau yn cael eu llofnodi gan ddau aelod ac unrhyw daliadau yn cael eu hadrodd i'r cyngor pan gânt eu gwneud. Bydd cymeradwyaeth i ddefnyddio debyd uniongyrchol amrywiol yn cael ei adnewyddu gan benderfyniad y cyngor o leiaf bob dwy flynedd.
- 6.8. Os tybir gan y cyngor ei fod yn briodol, gellir talu am rai eitemau (cyflogau'n bennaf) gydag archeb reolaidd bancwr cyn belled â bod y cyfarwyddiadau yn cael eu llofnodi, neu eu tystio fel arall, gan ddau aelod a chael eu cadw, a bod unrhyw daliadau yn cael eu hadrodd i'r cyngor pan gânt eu gwneud. Bydd cymeradwyaeth i ddefnyddio archeb reolaidd yn cael ei adnewyddu gan benderfyniad y cyngor o leiaf bob dwy flynedd.
- 6.9. Os tybir gan y cyngor ei fod yn briodol, gellir talu am rai eitemau gyda dulliau BACS neu CHAPS cyn belled â bod y cyfarwyddiadau ar gyfer pob taliad yn cael eu llofnodi, neu eu tystio gan ddau lofnodwr banc awdurdodedig a chael eu cadw, a bod unrhyw daliadau yn cael eu hadrodd i'r cyngor pan gânt eu gwneud. Bydd cymeradwyaeth i ddefnyddio BACS neu CHAPS yn cael ei adnewyddu gan benderfyniad y cyngor o leiaf bob dwy flynedd.
- 6.10. Os tybir gan y cyngor ei fod yn briodol, gellir talu am rai eitemau gyda throsglwyddiad bancio rhyngrwyd cyn belled ag y cedwir tystiolaeth yn dangos pa aelodau a gymeradwyodd y taliad.
- 6.11. Lle mae cyfrifiadur yn gofyn am ddefnyddio rhif adnabod personol (PIN) neu gyfrinair/gyfrineiriau eraill, i gael mynediad at gofnodion y cyngor ar y cyfrifiadur hwnnw, gwneir nodyn o'r PIN a'r gyfrineiriau a'u rhoi i Gadeirydd y Cyngor mewn amlen wedi ei selio a'i dyddio a bydd ef yn ei chadw. Ni ellir agor yr amlen hon ac eithrio ym mhresenoldeb dau gynghorydd arall. Ar ôl agor yr amlen dan unrhyw amgylchiadau, dylid newid y PIN a/neu gyfrineiriau cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol. Bydd y ffaith bod yr amlen wedi ei hagar, dan ba bynnag amgylchiadau, yn cael ei hadrodd i'r holl aelodau ar unwaith ac yn ffurfiol i gyfarfod nesaf cyfleus y cyngor. Ni fydd angen gwneud hyn ar gyfer cyfrifiadur personol aelod a ddefnyddir ar gyfer awdurdodi taliadau banc o bell yn unig.
- 6.12. Ni fydd unrhyw weithiwr neu gynghorydd yn datgelu unrhyw PIN neu gyfrineiriau, sy'n berthnasol i waith y cyngor neu ei gyfrifon banc, i unrhyw berson heb ei awdurdodi trwy lythyr gan y cyngor neu bwyllgor a ddirprwywyd yn briodol.
- 6.13. Dylid gwneud copiâu rheolaidd wrth gefn o'r cofnodion ar unrhyw gyfrifiadur a'u storio'n ddiogel i ffwrdd o'r cyfrifiadur dan sylw, ac oddi ar y safle yn ddelfrydol.

- 6.14. Bydd y cyngor, ac unrhyw aelodau sy'n defnyddio cyfrifiaduron ar gyfer busnes ariannol y cyngor, yn sicrhau bod meddalwedd gwrth-firws, gwrth ysbïwedd a mur tân gyda diweddariadau awtomatig, ynghyd â lefel uchel o ddiogelwch, yn cael eu defnyddio.
- 6.15. Lle gwneir trefniadau bancio rhyngrwyd gydag unrhyw fanc, penodir y Clerc fel Gweinyddwr y Gwasanaeth. Bydd y mandad banc a gymeradwywyd gan y cyngor yn adnabod nifer o gynghorwyr a gaiff eu hawdurdodi i gymeradwyo trafodion ar y cyfrifon hynny. Bydd y mandad banc yn datgan yn glir swm y taliadau y gellir eu defnyddio gan Weinyddwr y Gwasanaeth ar ei ben ei hun, neu gan Weinyddwr y Gwasanaeth gyda nifer a ddatganwyd o gymeradwyon.
- 6.16. Bydd mynediad at unrhyw gyfrifon banc yn uniongyrchol i'r dudalen fynediad (y gellir ei chadw dan "ffefrynnau"), a ddim trwy beiriant chwilio neu gysylltiad ebost. Ni ddylid defnyddio cyfleusterau cofio cyfrineiriau ar unrhyw gyfrifiadur a ddefnyddir ar gyfer gwaith bancio'r cyngor. Caiff torri'r Rheoliad hon ei drin fel mater difrifol iawn dan y rheoliadau hyn.
- 6.17. Gellir ond newid manylion cyfrifon cyflenwyr, a ddefnyddir ar gyfer bancio rhyngrwyd, ar hysbysiad copi caled ysgrifenedig gan y cyflenwr a gydag awdurdod copi caled ar gyfer y newid a lofnodwyd gan y Clerc ac un Aelod. Dilynrir rhaglen o wiriadau rheolaidd o ddata sefydlog gyda chyflenwyr.
- 6.18. Bydd defnyddio cerdyn credyd corfforaethol neu gyfrif cerdyn masnach a agorir gan y cyngor yn cael ei gyfyngu'n benodol i'r Clerc a bydd yn destun taliad llawn ar ddiwedd pob mis. Ni ddylid defnyddio cardiau credyd neu ddebyd personol aelodau staff dan unrhyw amgylchiadau.
- 6.19. Gall y SAC roddi arian mân i swyddogion i ddibenion talu treuliau gweithredol a threuliau eraill. Dylid anfon talebau ar gyfer taliadau at y SAC gyda chais am daliad.
- a) Bydd y SAC yn cadw cronfa arian mân o £300 i ddibenion talu treuliau gweithredol a threuliau eraill. Dylid cadw talebau am daliadau a wnaed o'r gronfa arian mân i gadarnhau'r taliad.
  - b) Ni ddylid talu incwm a dderbynnir i'r gronfa arian mân ond rhaid ei fancio ar wahân, fel y darperir mewn man arall yn y rheoliadau hyn.
  - c) Dylid dangos taliadau i gynnal y gronfa arian mân ar wahân ar yr atodlen o daliadau a gyflwynir i'r cyngor dan 5.2 uchod.

## **7. TALU CYFLOGAU**

- 7.1. Fel cyflogwr, bydd y cyngor yn gwneud trefniadau i gyflawni'n llawn y gofynion statudol sy'n dod i ran holl gyflogwyr gan ddeddfwriaeth PAYE ac Yswiriant Gwladol. Bydd yr holl gyflogau yn cael eu talu yn unol â chofnodion cyflogres a rheoliadau

presennol PAYE ac Yswiriant Gwladol, a bydd cyfraddau cyflog yn unol â phenderfyniad y cyngor neu'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

- 7.2. Rhaid talu cyflogau a gwneud didyniadau o gyflogau ar gyfer cyfraniadau treth, yswiriant gwladol a phensiwn, neu ddidyniadau statudol neu ddewisol arall, yn unol â chofnodion cyflogres ac ar y dyddiadau priodol a bennwyd mewn contractau cyflogaeth, cyn belled â bod pob tâl yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r cyngor, fel y pennir yn y rheoliadau hyn uchod.
- 7.3. Ni wneir unrhyw newid i gyflog, enillion neu delerau ac amodau cyflogaeth heb ganiatâd y cyngor ymlaen llaw.
- 7.4. Cofnodir pob taliad i weithwyr o gyflog net ac i'r credydwr priodol o'r didyniadau statudol a dewisol mewn cofnod cyfrinachol ar wahân (llyfr arian cyfrinachol). Nid yw'r cofnod cyfrinachol hwn ar gael i'w arolygu neu ei archwilio (dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu fel arall) ac eithrio:
  - a) gan unrhyw gynghorydd sy'n medru dangos angen i wybod;
  - b) gan yr archwiliwr mewnol;
  - c) gan yr archwiliwr allanol, neu
  - d) gan unrhyw berson wedi ei awdurdodi dan y Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998 neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cymryd ei lle.
- 7.5. Bydd cyfanswm taliadau o'r fath ym mhob mis calendr yn cael ei adrodd gyda'r holl daliadau eraill a wnaed fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ariannol hyn, i sicrhau mai dim ond y taliadau sy'n ddyledus ar gyfer y cyfnod sydd wedi eu talu mewn gwirionedd.
- 7.6. Bydd y SAC yn talu'r holl gyflogau ac enillion yn unol â rheoliadau 6.8 i 6.10 o gyfrif cyfredol y Cyngor.
- 7.7. Dylid tystio bod holl ddalennau amser yn gywir gan y SAC.
- 7.8. Dylid cynnal system effeithiol o reoli perfformiad personol ar gyfer yr uwch swyddogion.
- 7.9. Bydd unrhyw daliadau terfynu yn cael eu cefnogi gan achos busnes clir a'u hadrodd i'r cyngor. Dim ond y cyngor a all awdurdodi taliadau terfynu.
- 7.10. Cyn cyflogi staff dros dro, rhaid i'r cyngor ystyried achos busnes llawn.

## **8. BENTHYCIADAU A BUDDSODDIADAU**

- 8.1. Bydd holl fenthyciadau yn enw'r cyngor, ar ôl cael y gymeradwyaeth fenthycia angenrheidiol. Bydd unrhyw gais am gymeradwyaeth i fenthycia yn cael ei

gymeradwyo gan y Cyngor o ran telerau a phwrpas. Dim ond y cyngor llawn a all gymeradwyo benthyciad a threfniadau wedi hynny ar gyfer benthyciad.

- 8.2. Bydd unrhyw drefniant ariannol nad oes angen cymeradwyaeth fenthyca ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Gwladol / Llywodraeth Cynulliad Cymru (megis Hur Bwrcas neu Brydlesu asedau diriaethol) yn destun cymeradwyaeth gan y cyngor llawn. Ym mhob achos, darperir adroddiad i'r cyngor mewn perthynas â gwerth am arian y drafodaeth ariannol arfaethedig.
- 8.3. Bydd holl fenthyciadau a buddsoddiadau yn cael eu gwneud yn enw'r cyngor a byddant am gyfnod penodol yn unol â pholisi'r cyngor.
- 8.4. Bydd y cyngor yn sefydlu a chynnal Strategaeth a Pholisi Buddsoddi a fydd, os caiff ei lunio, yn unol â'r rheoliadau perthnasol, arferion a chanllawiau priodol. Bydd unrhyw Strategaeth a Pholisi yn cael eu hadolygu gan y cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 8.5. Bydd holl fuddsoddiadau ariannol dan reolaeth y cyngor yn enw'r cyngor.
- 8.6. Cedwir holl dystysgrifau buddsoddi a dogfennau eraill yn ymwneud â hynny gan y SAC.
- 8.7. Gwneir taliadau mewn perthynas â buddsoddiadau byrdymor a hirdymor yn unol â Rheoliad 5 (Awdurdodi Taliadau) a Rheoliad 6 (Cyfarwyddiadau ar gyfer Taliadau).

## **9. INCWM**

- 9.1. Bydd casglu unrhyw symiau sy'n ddyledus i'r cyngor yn gyfrifoldeb i'r SAC ac fe'i gwneir dan ei oruchwyliaeth ef.
- 9.2. Bydd y cyngor yn cytuno bob blwyddyn fanylion holl daliadau am waith a wnaed, gwasanaethau a gafwyd neu nwyddau a gyflenwyd, eu hysbysu i'r SAC a'r SAC a fydd yn gyfrifol am gasglu'r symiau sy'n ddyledus i'r cyngor.
- 9.3. Bydd y cyngor yn adolygu holl ffioedd a thaliadau o leiaf bob blwyddyn, ar ôl adroddiad gan y Clerc.
- 9.4. Adroddir am unrhyw symiau na ellir eu casglu ac unrhyw ddyledion drwg i'r cyngor ac fe'u diddymir yn y flwyddyn.
- 9.5. Bydd holl symiau a dderbynnir ar ran y cyngor yn cael eu bancio'n llawn yn unol â chyfarwyddyd y SAC. Ym mhob achos, bydd holl dderbynebau yn cael eu hadneuo gyda bancwyr y cyngor mor aml ag y tybia'r SAC yn angenrheidiol.
- 9.6. Nodir tarddiad pob derbynneb ar y bonyn talu.
- 9.7. Ni ddylid talu sieciau personol allan o arian a ddelir ar ran y cyngor.

- 9.8. Bydd y SAC yn cwblhau yn brydlon unrhyw Adroddiad TAW sydd ei angen. Gwneir cais am unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus dan Ddeddf TAW 1994, adran 33, o leiaf bob blwyddyn, yn cyd-daro â diwedd y flwyddyn ariannol.
- 9.9. Os derbynnir unrhyw symiadau arwyddocaol o arian yn rheolaidd gan y cyngor, bydd y SAC yn cymryd camau a gytunwyd gan y cyngor i sicrhau bod mwy nag un person yn bresennol pan gyfrifir yr arian yn y lle cyntaf, bod cysoniad i ryw fath o reolaeth megis tocynnau a werthwyd, a bod gofal priodol yn cael ei gymryd o ran diogelwch unigolion sy'n bancio arian o'r fath.
- 9.10. Bydd unrhyw incwm sy'n eiddo ymddiriedolaeth elusennol yn cael ei dalu i gyfrif banc elusennol. Rhoddir cyfarwyddiadau i dalu cyllid sy'n ddyledus gan yr ymddiriedolaeth elusennol i'r cyngor (i dalu am wariant a wnaed eisoes gan yr awdurdod) gan Ymddiriedolwyr Rheoli yr elusen sy'n cyfarfod ar wahân i unrhyw gyfarfod o'r cyngor (gweler hefyd Rheoliad 16 isod)].

## **10. ARCHEBION AM WAITH, NWYDDAU A GWASANAETHAU**

- 10.1. Bydd archeb neu lythyr swyddogol yn cael ei wneud am waith, nwyddau a gwasanaethau oni fo contract ffurfiol yn cael ei baratoi neu lle byddai archeb swyddogol yn amhriodol. Dylid cadw copïau.
- 10.2. Y SAC a fydd yn rheoli llyfrau archebu.
- 10.3. Mae'r holl aelodau a'r swyddogion yn gyfrifol am gael gwerth am arian bob amser. Bydd swyddog sy'n cyflwyno archeb swyddogol yn sicrhau cyn belled ag y bo'n rhesymol ac ymarferol bod y telerau gorau yn cael eu sicrhau ar gyfer pob achos, fel rheol trwy gael tri neu fwy o brisiau neu amcangyfrifon gan gyflenwyr priodol, yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau *de minimis* yn Rheoliad 11.1 isod.
- 10.4. Ni chaiff aelod gyflwyno archeb swyddogol neu wneud contract ar ran y cyngor.
- 10.5. Bydd y SAC yn dilysu natur gyfreithlon unrhyw bryniant arfaethedig cyn cyflwyno unrhyw archeb, ac yn achos pryniannau neu daliadau newydd neu anaml, bydd y SAC yn sicrhau bod yr awdurdod statudol yn cael ei adrodd i'r cyfarfod pan gymeradwyir yr archeb er mwyn i'r cofnodion fedru cofnodi'r pŵer a ddefnyddir.

## **11. CONTRACTAU**

- 11.1. Cyflwynir gweithdrefnau mewn perthynas â chontractau fel a ganlyn:
- a. Bydd pob contract yn cydymffurfio â'r rheoliadau ariannol hyn, ac ni fydd unrhyw eithriadau ac eithrio mewn argyfwng cyn belled â nad yw'r rheoliad hon yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud ag eitemau (i) i (vi) isod:

- i. ar gyfer cyflenwi nwy, trydan, dŵr, carthffosiaeth a gwasanaethau ffôn;
  - ii. ar gyfer gwasanaethau arbenigol megis rhai a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifyddion, syrfëwyr a chynghorwyr cynllunio;
  - iii. am waith i'w wneud neu nwyddau neu ddeunyddiau i'w cyflenwi sy'n cynnwys atgyweiriadau i neu rannau ar gyfer peiriannau neu gyfarpar presennol;
  - iv. am waith i'w wneud neu nwyddau neu ddeunyddiau i'w cyflenwi sy'n golygu estyniad i gontract presennol gan y cyngor;
  - v. am waith archwilio ychwanegol gan yr archwiliwr allanol hyd at werth tebygol o £500 (dros y swm hwn bydd y Clerc a'r SAC yn gweithredu ar ôl ymgynghori â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y cyngor), ac
  - vi. am nwyddau neu ddeunyddiau y bwriedir eu prynu sy'n eitemau perchenogol a/neu a werthir am bris penodol yn unig.
- b. Lle mae'r cyngor yn bwriadu caffael neu ddyfarnu contract cyflenwad cyhoeddus, contract gwasanaeth cyhoeddus neu gontract gwaith cyhoeddus fel y diffinnir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ("y Rheoliadau") sydd wedi ei brisio yn £25,000 neu fwy, bydd y cyngor yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y Rheoliadau<sup>2</sup>.
  - c. Dilynr gofynion llawn y Rheoliadau, fel y bo'n berthnasol, mewn perthynas â thendro a dyfarnu contract cyflenwad cyhoeddus, contract gwasanaeth cyhoeddus neu gontract gwaith cyhoeddus sy'n fwy na'r trothwy yn y Rheoliadau a bennwyd gan Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus 2014/24/EU (a all newid o bryd i'w gilydd)<sup>3</sup>.
  - d. Pan wneir ceisiadau i ildio rheoliadau ariannol mewn perthynas â chontractau er mwyn caniatáu trafod pris heb gystadleuaeth, ymgorfforir y rheswm mewn argymhelliad i'r cyngor.
  - e. Bydd gwahoddiad o'r fath i dendro yn datgan natur gyffredinol y contract bwriedig a bydd y Clerc yn cael y cymorth technegol gofynnol i baratoi manyleb mewn achosion priodol. Bydd y gwahoddiad, yn ychwanegol, yn datgan bod yn rhaid anfon tendrau at y Clerc gyda'r post cyffredinol. Bydd pob cwmni sy'n tendro yn cael amlen wedi ei marcio'n benodol, yn yr hon y caiff y tendr ei selio, a bydd yn aros wedi ei selio tan y dyddiad a bennwyd ar gyfer agor tendrau ar gyfer y contract hwnnw.

---

<sup>2</sup> Mae'r Rheoliadau yn gofyn i gynghorau ddefnyddio gwefan Contracts Finder i hysbysebu cyfleoedd contract, pennu'r drefn i'w dilyn wrth ddyfarnu contractau newydd a rhoi cyhoedduswydd i ddyfarnu contractau newydd

<sup>3</sup> Y trothwy ar hyn o bryd yw:

- a. Ar gyfer contractau cyflenwad cyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus 209,000 Ewro (£164,176)
- b. Ar gyfer contractau gwaith cyhoeddus 5,225,000 Ewro (£4,104,394)

- f. Agorir pob tendr wedi ei selio ar yr un pryd ar y dyddiad a bennwyd gan y Clerc ym mhresenoldeb o leiaf un aelod o'r cyngor.
- g. Pan fydd yn gwneud contract gwerth llai na £25,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu i gael gwaith neu wasanaethau arbenigol ar wahân i nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau arbenigol a eithrir fel y nodwyd ym mharagraff (a) uchod, bydd y Clerc neu'r SAC yn cael 3 dyfynbris (disgrifiadau wedi eu prasio o'r cyflenwad arfaethedig); lle mae'r gwerth islaw £5,000 a thros £1,000 bydd y Clerc neu'r SAC yn ceisio cael 3 amcangyfrif. Fel arall, bydd Rheoliad 10.3 uchod yn berthnasol.
- h. Nid oes yn rhaid i'r cyngor dderbyn y tendr, pris neu amcangyfrif isaf nac unrhyw un ohonynt.
- i. Os nad yw'r cyngor, neu bwyllgor wedi ei ddiprwyo'n briodol, yn derbyn unrhyw dendr, pris neu amcangyfrif, ni ddyrennir y gwaith ac mae angen i'r cyngor gael prisiau pellach, cyn belled â nad yw'r fanyleb yn newid. Ni chaniateir i unrhyw berson gyflwyno tendr, amcangyfrif neu bris yn ddiweddarach os oedd yn bresennol pan ymgwymerwyd â'r broses wreiddiol o gymryd penderfyniad.

## **12. TALIADAU DAN GONTRACTAU AR GYFER GWAITH ADEILADU NEU WAITH ARALL (CONTRACTAU GWAITH CYHOEDDUS)**

- 12.1. Gwneir taliadau ar gyfrif swm y contract o fewn yr amser a bennwyd yn y contract gan y SAC o dderbyn tystigrifau awdurdodedig y pensaer neu gynghorwyr eraill a gyflogwyd i oruchwylio'r contract (yn amodol ar ddal yn ôl unrhyw ganran a gytunwyd mewn contract penodol).
- 12.2. Lle mae contractau yn darparu ar gyfer talu mewn rhandaliadau, bydd y SAC yn cadw cofnod o daliadau o'r fath. Mewn unrhyw achos lle'r amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost gwaith dan contract, ac eithrio amrywiadau a gytunwyd, yn mynd dros swm y contract o 5% neu fwy, dylid cyflwyno adroddiad i'r cyngor.
- 12.3. Rhaid i'r cyngor a'r Clerc gytuno ar bapur unrhyw amrywiad i gontract neu ychwanegiad neu hepgoriad i gontract, a hysbysu'r cyngor pan fydd y gost derfynol yn debygol o fod yn fwy na'r ddarpariaeth ariannol.

## **13. STORAU A CHYFARPAR**

- 13.1. Bydd y swyddog sy'n gyfrifol am bob adran yn gyfrifol am ofalu am a chadw storau a chyfarpar yn yr adran honno.



- 13.2. Dylid cael nodyn dosbarthu mewn perthynas â'r holl nwyddau a dderbynnir i'r stôr neu a ddsberthir fel arall a rhaid gwirio nwyddau er mwyn sicrhau archeb ac ansawdd ar adeg y dosbarthu.
- 13.3. Cedwir stociau ar y lefelau isaf sy'n gyson â gofynion gweithredol.
- 13.4. Bydd y SAC yn gyfrifol am wirio stociau a storau o bryd i'w gilydd, o leiaf bob blwyddyn.

## **14. ASEDAU, ADEILADAU A STADAU**

- 14.1. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer cadw holl weithredoedd teitl a Thystysgrifau Cofrestrfa Dir eiddo a ddelir gan y cyngor. Bydd y SAC yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl eiddo a ddelir gan y cyngor, yn cofnodi lleoliad, maint, cynllun, cyfeirnod, manylion prynu, natur y buddiant, tenantiaethau a roddwyd, rhenti sy'n daladwy a phwrpas yr ased a ddelir yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
- 14.2. Ni ddylid prynu neu gaffael fel arall, gwerthu, prydlesu neu waredu eiddo symudol diriaethol heb awdurdod y cyngor, ynghyd ag unrhyw ganiatâd arall sy'n ofynnol dan y gyfraith, ac eithrio lle mae gwerth bras unrhyw un eitem o eiddo symudol diriaethol ddim mwy na £1,000.
- 14.3. Ni ddylid gwerthu, prydlesu, neu waredu fel arall unrhyw eiddo gwirioneddol (buddiannau mewn tir) heb awdurdod y cyngor, ynghyd ag unrhyw ganiatâd arall sy'n ofynnol dan y gyfraith. Ym mhob achos, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor mewn perthynas â phrisiad a chyflwr yr eiddo (gan gynnwys materion megis caniatâd cynllunio a chyfamodau) ynghyd ag achos busnes priodol (gan gynnwys lefel ddigonol o ymgynghori gyda'r etholaeth).
- 14.4. Ni ddylid prynu neu gaffael unrhyw eiddo gwirioneddol (buddiannau mewn tir) heb awdurdod y cyngor llawn. Ym mhob achos, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor mewn perthynas â phrisiad a chyflwr yr eiddo (gan gynnwys materion megis caniatâd cynllunio a chyfamodau) ynghyd ag achos busnes priodol (gan gynnwys lefel ddigonol o ymgynghori gyda'r etholaeth).
- 14.5. Yn amodol yn unig ar y cyfyngiad a bennir yn Rheoliad 14.2 uchod, ni fydd unrhyw eiddo symudol diriaethol yn cael ei brynu neu ei gaffael heb awdurdod y cyngor llawn. Ym mhob achos, cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i'r cyngor gydag achos busnes llawn.
- 14.6. Bydd y SAC yn sicrhau bod Cofrestr briodol a chywir o Asedau a Buddsoddiadau yn cael ei chadw a'i diweddarau. Bydd bodolaeth barhaol asedau diriaethol a ddangosir

yn y Gofrestr yn cael ei dilysu o leiaf bob blwyddyn, o bosibl ar y cyd ag archwiliad iechyd a diogelwch o'r asedau.

## **15. YSWIRIANT**

- 15.1. Ar ôl yr asesiad risg blynyddol, bydd y SAC yn gweithredu pob yswiriant ac yn trafod pob cais i yswiriwyr y cyngor.
- 15.2. Bydd y Clerc yn gweithredu'n brydlon i sicrhau:
  - Bod pob risg, eiddo neu gerbyd newydd sydd angen yswiriant yn cael eu hychwanegu i yswiriant presennol y Cyngor.
  - Bod y cwmni yswiriant yn cael ei hysbysu o unrhyw newid sy'n effeithio yswiriant presennol.
- 15.3. Bydd y SAC yn cadw cofnod o bob yswiriant sydd gan y cyngor a'r eiddo a'r risgiau sy'n dod oddi tano a'i adolygu bob blwyddyn.
- 15.4. Hysbysir y SAC am unrhyw golled, atebolrwydd neu niwed neu o unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at hawliad, a bydd yn adrodd am y rhain yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
- 15.5. Bydd holl aelodau a gweithwyr y cyngor yn cael eu cynnwys ar ffurf addas o ddiogelwch neu yswiriant gwarantu cywirdeb a fydd yn gwarantu'r perygl uchaf o risg fel y penderfynir yn flynyddol gan y cyngor, neu bwyllgor a ddirprwywyd yn briodol.

## **16. RHEOLI RISG**

- 16.1. Y cyngor sy'n gyfrifol am roddi ar waith drefniadau i reoli risg. Bydd y Clerc yn paratoi, i'w cymeradwyo gan y cyngor, ddatganiadau polisi rheoli risg mewn perthynas â holl weithgareddau'r cyngor. Bydd y cyngor yn arolygu datganiadau polisi risg a threfniadau rheoli risg sy'n deillio ohonynt o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 16.2. Wrth ystyried unrhyw weithgaredd newydd, bydd y Clerc yn paratoi asesiad risg drafft, gan gynnwys unrhyw gynigion rheoli risg i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y cyngor.

## **17. ATAL AC ADOLYGU'R RHEOLIADAU ARIANNOL**

- 17.1. Dyletswydd y cyngor fydd adolygu Rheoliadau Ariannol y cyngor o bryd i'w gilydd. Bydd y Clerc yn trefnu i fonitro newidiadau mewn deddfwriaeth neu arferion priodol ac yn hysbysu'r cyngor o unrhyw angen i newid y Rheoliadau Ariannol hyn oherwydd hynny.
- 17.2. Gall y cyngor, dan benderfyniad y cyngor a hysbyswyd cyn cyfarfod perthnasol y cyngor, atal unrhyw ran o'r Rheoliadau Ariannol hyn cyn belled ag y cofnodir y

rheswm am eu hatal a bod asesiad o'r risgiau sy'n deillio wedi eu llunio a'u cyflwyno ymlaen llaw i holl aelodau'r cyngor.

\* \* \*

FINAL 16 02 2017